Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH ARBENNIG** | | **EXTRAORDINARY EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 6 IONAWR 2026 2:00 o'r gloch** | | **TUESDAY 6 JANUARY 2026 2:00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

## R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4** **ADRODDIAD GWRTHWYNEBU AR GANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR Y CYNNIG I: ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER DISGYBLION 11-18 OED** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 6 Ionawr 2026 |
| Pwnc: | Adroddiad gwrthwynebu ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i:<br>“Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.” |
| Aelod(au) portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Roberts |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Aaron C. Evans<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Awdur yr adroddiad: | Emrys Bebb<br>williambebb@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau lleol: | Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones<br>Y Cynghorydd Jeff M. Evans<br>Y Cynghorydd Pip O’Neill<br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Keith Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones<br>Y Cynghorydd Ken Taylor<br>Y Cynghorydd John I. Jones<br>Y Cynghorydd Arfon Wyn<br>Y Cynghorydd Douglas M. Fowlie<br>Y Cynghorydd Neville Evans |

A – Argymhellion a rhesymau

**Argymhelliad**

1. Ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, i barhau gyda’r cynnig i “Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11–18 oed”.
2. Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu i Weinidogion Cymru am y penderfyniad terfynol ar y cynnig hwn i “Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11–18 oed”.
3. Awdurdodi swyddogion i roi rhybudd o’r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad (yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.
4. I ymrwymo i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at gostau’r prosiect, fel amlinellir yn rhan 7 o’r Papur Cynnig gan gynnwys costau trosiannol (rhan 7.6 o’r Papur Cynnig), fydd yn weithredol o 2025/26 ymlaen

**Rhesymau**

Dywed y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018), os bydd y cynigydd (CSYM yn yr achos hwn) yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, rhaid iddo gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. Gwnaethpwyd hyn ar Dachwedd 6 2025. Roedd cyfnod 28 diwrnod yn dilyn a ddaeth i ben ar 23:59 ar 3 Rhagfyr 2025. Yn unol ag adran 49 o’r Ddeddf Safonau a

| |
|---|
| Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhaid i gynigwyr, Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi ac ymateb i grynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ("yr adroddiad gwrthwynebu") sef y ddogfen hon. Derbyniwyd 2 wrthwynebiad dilys i'r cynnig a derbyniwyd 1 gwrthwynebiad i'r cynnig cafodd ei ystyried yn annilys. |

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Fel yr amlygwyd yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori a gyflwynwyd i randdeiliaid, ystyriwyd a gwrthodwyd yr opsiynau canlynol.

Ymgynghoriad statudol YUC

| Opsiynau eraill a ystyriwyd | Prif resymau dros wrthod |
|---|---|
| 1.Cadw'r sefyllfa bresennol – Gadael Ysgol Uwchradd Caergybi fel y mae. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). |
| 2.Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi, gydag Ysgol Cybi. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC. |
| 3. Cau Ysgol Uwchradd Caergybi a throsglwyddo dysgwyr i ysgolion uwchradd eraill Ynys Môn. | Dim ysgol uwchradd yn nhref fwyaf yr ynys. Dim digon o leoedd gwag yn yr ysgolion uwchradd eraill i ddarparu lle i holl ddysgwyr YUC. |
| 4. Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi, gydag Ysgol Uwchradd Bodedern. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC. |
| 5. Adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi. | Mwy o aflonyddwch i addysg dysgwyr. Byddai'n mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd ar gyfer y cynnig. |
| 6. Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi). | Mwy o aflonyddwch i addysg dysgwyr. Byddai'n mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd ar gyfer y cynnig. |
| 7. Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer disgyblion 11-18 oed. | Y dewis hwn sydd â'r Gost Cyfalaf uchaf. Gallai fod amser teithio ychwanegol posibl i ddysgwyr yn dibynnu ar y lleoliad. Gallai hefyd fod yn anoddach i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, neu i'r ysgol gael ei defnyddio fel adnodd cymunedol. Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn ystyried bod ysgol â chapasiti o 1,750 o ddysgwyr yn rhy fawr i Ynys Môn. |
| 8. Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Uwchradd Caergybi gan edrych ar enghreifftiau megis clwstwr ysgolion, defnyddio'r ysgolion fel canolfannau cymunedol i ddarparu ar gyfer/cefnogi gwasanaethau cymunedol | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC. Posibilrwydd o broblemau diogelu plant ychwanegol, gyda gwasanaethau eraill yn rhannu safle'r ysgol. |

| | |
|---|---|
| e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu teuluol ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol. Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol. | |

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gall y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyflwyno'r adroddiad gwrthwynebu i Weinidogion Cymru. Er hynny, yn unol â rhan 5.2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan bod y chweched dosbarth yn ran o'r cynnig hwn, bydd angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynnig, a rhaid eu hysbysu o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Daw'r 35 diwrnod i ben ar 23:59 ar 7 Ionawr 2026.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n unol â'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2023).

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amcangyfrifir bod y gost arfaethedig yn £66 miliwn, a bydd y rhan fwyaf ohoni'n cael ei hariannu drwy Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Amcangyfrifir bod cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif) tuag at gost gwasanaeth flynyddol am 25 mlynedd (MIM) o ddyddiad agor yr adeilad ysgol newydd (Medi 2030) yn £1,238,218, sy'n cael ei ystyried yn fforddiadwy. Bydd angen cyllidebu ar gyfer hyn o 2030/31 ymlaen.

Bydd yna hefyd rai costau (£5.163m) nad ydynt yn gymwys i'w hariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a byddant yn cael eu trin fel cynllun Cyfalaf. Cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y costau hyn yw 65%. Bydd y 35% sy'n weddill (£1.8m) yn cael ei ariannu o Dderbyniadau Cyfalaf o werthu'r safle presennol, a thrwy fenthyca heb gymorth. Mae'r ad-daliadau blynyddol wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal, sy'n golygu y byddai'r swm a fyddai'n cael ei ad-dalu yn is yn y cyfnod benthyciad cychwynnol a bydd yn uwch yn ystod camau olaf y cyfnod benthyciad. Amcangyfrifir y bydd yr ad-daliadau blynyddol yn dechrau ar £60,324 o 2028/29 ymlaen, ac mae angen cyllidebu ar gyfer hyn hefyd.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Bydd y penderfyniad posibl hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg uwchradd yn ardal Caergybi ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgolion newydd yn addas at y diben ac yn bodloni safonau BREEAM a safonau rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Ydi - Byddai'r Cyngor yn osgoi gorfod talu'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn (2024) yn yr hen adeilad.<br><br>Gan y bydd y prosiect yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC neu MIM), gallai'r cynnig arwain at arbedion yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw ganolog am y 25 mlynedd nesaf. |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig rhwng 5 Mehefin 2025 a 17 Gorffennaf 2025 ac ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid canlynol:<br>• Staff (Addysgu ac Ategol) Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd yn yr ardal dalgylch<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol Lleol<br>• Aelod Senedd Lleol<br>• Aelodau Senedd Rhanbarthol<br>• Llywodraeth Cymru - Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu<br>• Estyn<br>• Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Comisiynydd yr Iaith Gymraeg<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• MEDR - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil<br>• Awdurdod Lleol Cyfagos<br>• Cynghorau Tref a Chymuned Lleol<br>• Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Canolfan Addysg Y Bont<br>• Yr Eglwys yng Nghymru<br>• Awdurdod Esgobaethol Catholig |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Ydyn. Cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol o 5 Mehefin 2025 i 17 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â'r cynnig canlynol i:<br><br>**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed".**<br><br>Pwrpas yr ymgynghoriad statudol oedd ceisio barn rhanddeiliaid/partïon â diddordeb ar y cynnig. |

Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 1,023 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol drwy'r ffurflen ymateb ar-lein. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach.

| Categori'r ymatebwr | Canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Dysgwr / disgybl | 32.3% | 329 |
| Llywodraethwr ysgol | 1.2% | 12 |
| Staff | 6.6% | 67 |
| Rhiant / gwarcheidwad | 22.5% | 229 |
| Aelod etholedig | 1.2% | 12 |
| Cynghorydd tref / cymuned | 0.6% | 6 |
| Preswylydd lleol | 42.1% | 429 |
| Arall*(e.e. cyn-ddisgybl) neu heb nodi | 3.4% | 35 |

Ymatebodd rhai rhanddeiliaid mewn mwy nag un swyddogaeth e.e. ymateb fel rhiant/gwarcheidwad a llywodraethwr ysgol, sydd wedi'i gofnodi fel un ymateb yn y cyfanswm cyffredinol o 1023.

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl a staff waeth beth fo'u gallu a'u cefndir. Gweler yr Asesiad Effaith am ragor o wybodaeth.

Asesiad effaith: YUC

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gweler yr Asesiad Effaith am ragor o wybodaeth.

Asesiad effaith: YUC

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

Asesiad effaith: YUC

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4. Adnoddau Dynol | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion AD sy'n deillio o'r argymhellion yn unol ag AD a phrosesau AD cydnabyddedig eraill. |
| 5. Eiddo | Mae swyddogion eiddo wedi bod yn amcangyfrif costau posibl y prosiect a byddent yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r tîm wrth symud ymlaen. |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo a'r prosiect posibl ei gymeradwyo, byddai achosion busnes yn cael eu paratoi yn unol â chanllawiau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y gwariant posibl ar "Dodrefn, Ffitiadau ac Offer / Technoleg Gwybodaeth" yn unol â meincnod cost Llywodraeth Cymru yn y canllawiau hynny. |
| 7. Caffael | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, yna byddai angen trafodaethau pellach o ran cyllid drwy'r Dull Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC neu MIM). |
| 8. Sgriwtini | Ddim yn berthnasol |
| 9. Aelodau lleol | Dim sylwadau wedi eu derbyn |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad Gwrthwynebu Ysgol Uwchradd Caergybi. |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

- Asesiad Effaith (sy'n asesu Cydraddoldeb, Iaith, Cymuned)
  Asesiad effaith: YUC
- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018
  cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf
- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (Gorffennaf 2023)
  Strategaeth Moderneiddio Cymunedau.pdf
- Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (RhAS / SOP) (Mawrth 2024)
  Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) – Rhaglen

**ATODIAD 1**

**TREFNIADAETH YSGOLION**

**ADRODDIAD GWRTHWYNEBU AR Y CYNNIG I:**

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer pobl ifanc 11–18 oed"**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /**
**This document is also available in English.**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael drwy e-bostio**
**angleseyschools@ynysmon.llyw.cymru**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**CYNNWYS**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir | 3 |
| 2 | Crynodeb o'r gwrthwynebiadau | 3 |
| 3 | Tabl – Crynodeb o’r Gwrthwynebiadau ac ymatebion y Cyngor | 4 |
| 4 | Ymatebion y Cyngor | 9 |

**Adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi - Adroddiad Gwrthwynebu**

## 1. Cefndir

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn (gelwir y "**Cyngor**" wedyn) **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer pobl ifanc 11–18 oed"**

Cyhoeddwyd yr **Rhybudd Statudol** ar 6 Tachwedd 2025 ac yn dilyn hynny roedd cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebu'r cynnig. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben am 23:59 ar 3 Rhagfyr 2025. **Derbyniwyd cyfanswm o 2 wrthwynebiad dilys i'r cynnig ac roedd 1 gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn cael ei ystyried yn annilys.**

## 2. Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau

Yn unol ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhaid i gynigwyr, y Cyngor yn yr achos hwn, gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny (yr "**Adroddiad Gwrthwynebu**"). Y ddogfen hwn yw'r Adroddiad Gwrthwynebu.

Derbyniodd y Cyngor 2 ymateb dilys oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd yr ymatebion yn cynnwys mwy nag un rheswm dros wrthwynebu. Mae pob rheswm dros wrthwynebu ynghyd ag ymatebion cyfatebol y Cyngor wedi eu rhestru yn y tabl isod:

**Mae'r tabl isod (rhan 3) yn cynnwys crynodeb o bob rheswm am wrthwynebu ac ymateb y Cyngor i bob un o'r rhesymau hynny.**

**Roedd un gwrthwynebiad yn cael ei ystyried yn annilys. Mae'r gwrthwynebiad ynghyd ag ymateb y Cyngor ar gael yn rhan 4.**

## 3. Tabl – Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau ac Ymatebion y Cyngor

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **3.1** | Mae adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi y bwriedir ei adeiladu yn rhy bell "allan o'r dref". Bydd y rhan fwyaf o blant yn byw o fewn 3 milltir i'r safle newydd arfaethedig, felly ni fyddant yn gymwys i gael cludiant. Mae'n annheg disgwyl i blant gerdded ychydig llai na 3 milltir yn ôl a blaen i'r ysgol bob dydd, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.<br><br>Mae yna hefyd risg uwch o ddamweiniau / diogelwch ffyrdd gwael i blant ag anghenion ychwanegol, na ellir disgwyl iddynt gerdded y fath bellter heb gymorth. | Cyn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar y cynnig dan sylw, cynhaliodd swyddogion y Cyngor arfarniad manwl o safleoedd posibl ar gyfer adeilad yr ysgol uwchradd newydd yn ardal Caergybi. Y safle ger Canolfan Hamdden Caergybi oedd yr unig safle sy'n bodloni'r holl ofynion yn unol â'r Canllawiau Ardal ar gyfer Ysgolion yng Nghymru – Canllawiau Adeiladu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, gan gynnwys bod yn ddigon mawr (dros 19 erw). Fodd bynnag, gan fod y safle ychydig dros filltir i ffwrdd o safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi, mae'n debygol y bydd amseroedd teithio a phellteroedd yn fwy i rai dysgwyr ond yn llai i eraill.<br><br>Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd llawn amser sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw ynddi (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi Cludiant Ysgolion y Cyngor sydd ar gael yma: https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Schools-and-learning/School-transport/School-Transport-Policy.aspx<br><br>Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi'i chysylltu â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais glir i wella llwybrau cerdded a beicio i helpu Cyngor Sir Ynys Môn i fodloni ei amcanion amgylcheddol ac iechyd. Os cymeradwyir y cynnig, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a'u paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi unwaith y bydd y safle a'r cynnig newydd yn cael eu cadarnhau.<br><br>Os cymeradwyir y cynnig gan Lywodraeth Cymru, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig ac o bosibl byddant yn rhan o'r cais cynllunio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cais cynllunio yn cael ei ddatblygu gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig hefyd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gweler hefyd rhan 3.3. |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **3.2** | Arwyddocâd safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi:<br>Mae'r adeilad gwreiddiol wedi bod yno ers degawdau lawer ac mae hanes lleol o bwys yn perthyn iddo. | Roedd y Ddogfen Ymgynghori (fel gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor yma: Ymgynghoriad statudol YUC) yn rhestru'n fanwl y problemau gyda chyflwr adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi megis:<br>• ei chyfradd o ran cyflwr (Cyflwr Gradd C – a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru fel "Gweithredol ond bydd angen gwaith atgyweirio sylweddol neu adeiladau newydd yn y tymor byr i'r tymor canol ")<br>• diffyg caeau chwarae addas ar gael i ddysgwyr ar y safle presennol<br>• presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn yr ysgol, y problemau achosodd hyn yn 2023 ynghyd â'r ffaith mai datrysiad tymor canolig yw'r mesurau lliniaru presennol<br>• y gwariant cynnal a chadw presennol a rhagamcannol o £28,985,743.<br>• Mai dim ond yn rhannol mae'r adeilad ysgol yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac felly mae ganddi broblemau hygyrchedd sylweddol.<br>Mae'r materion hyn yn tynnu sylw at y problemau gydag adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi.<br><br>Mae adran 9.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n disgrifio sut mae'r Cyngor yn credu y byddai'r prosiect posibl yn cael ei ariannu. Byddai derbyniadau cyfalaf o werthiant posibl y safle a'r adeilad presennol yn cael eu defnyddio fel cyfraniad yn erbyn cost yr adeilad ysgol newydd. Er bod yr ysgol uwchradd wedi bod yn ei lleoliad presennol ers degawdau, nid oes unrhyw orfodaeth ar y Cyngor i gadw'r safle presennol na'r adeilad presennol. Fodd bynnag, gan nad yw'r cynnig wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch unrhyw ddefnydd posibl o adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi na'r safle yn y dyfodol. |
| **3.3** | Byddai plant yn teimlo'n anniogel / anghyfforddus yn cerdded yn ôl a blaen i'r ysgol yn ystod y misoedd tywyllaf ac ni fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio cludiant cyhoeddus.<br><br>Nid oes gan lawer o rieni gar i deithio yn ôl a blaen i'r safle newydd. | Os cymeradwyir y cynnig, cynhelir Asesiad Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig a byddant yn rhan o'r cais cynllunio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cais cynllunio yn cael ei ddatblygu gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Bydd yr Asesiad Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig hefyd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.<br><br>Bydd rhan o'r Asesiad Effaith ar Draffig yn golygu asesu llwybrau teithio i'r ysgol a fyddai'n cynnwys mynediad i gerddwyr i'r ysgol newydd arfaethedig. Byddai hefyd yn asesu teithiau bysiau ysgol presennol. Gweler hefyd rhan 3.1. |
| **3.4** | Ddim yn siŵr a oedd y Cyngor wedi cynnal astudiaeth effaith ar yr effaith y bydd y cynnig hwn yn ei chael ar drigolion Kingsland. | Fel gydag unrhyw brosiect newydd posibl, mae'r Cyngor yn asesu effaith bosibl y datblygiad posibl ar y gymuned leol. Gwnaed hyn drwy Asesiad Effaith ar y Gymuned a gyhoeddwyd fel rhan o asesiad effaith cyfansawdd (roedd yr Asesiad Effaith hefyd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg) gyda'r Ddogfen Ymgynghori. Cyfeiriodd swyddogion y Cyngor at ganllawiau Llywodraeth Cymru yn Atodiad C o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith ar y Gymuned. |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Rhestrodd yr Asesiad Effaith ar y Gymuned effaith bosibl y cynnig ar y gymuned leol yn y materion canlynol:<br>• Rhagolygon dysgwyr (5 mlynedd) ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi yn ogystal ag amcanestyniadau os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen<br>• Dysgwyr sy'n teithio rhwng dalgylchoedd<br>• Gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol ar ôl ysgol ar gael i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Uwchradd Caergybi a ddefnyddir gan grwpiau lleol<br>• Gofal cyn-ysgol ac ar ôl ysgol ar gael yn Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn lleol ger Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Pellter ac amser teithio<br>I grynhoi, mae'r Asesiad wedi canfod bod rhywfaint o ddefnydd cymunedol o'r cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Caergybi.<br><br>Er mwyn pennu effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, aseswyd y cynnig yn erbyn y meini prawf a restrir isod. Nodwyd bod ei effaith yn gadarnhaol os ystyrid bod y cynnig yn fuddiol, negyddol os ystyrid ei fod yn niweidiol ac yn niwtral os ystyrid nad yw'r cynnig yn cael effaith sylweddol.<br>Dysgwyr sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol<br>• Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol<br>• Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol<br>• Effaith bosibl ar gludiant<br>• Effaith bosibl ar gludiant cyhoeddus<br>Daeth yr Asesiad Effaith ar y Gymuned i'r casgliad, ar y cam hwn, cyn i swyddogion gael eu hawdurdodi i gynnal proses ymgynghori statudol ar y cynnig, ei bod yn ymddangos bod y cynnig yn cael ychydig neu ddim effaith ar y gymuned. Er hynny, mae'r Asesiad Effaith yn ddogfen fyw, fydd yn parhau i gael ei diweddaru wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen. Gweler y ddolen i'r Asesiad Effaith isod:<br>Asesiad effaith: YUC |
| **3.5** | Beth fydd yr effaith ar faint o draffig sy'n pasio trwy ardal Kingsland yng Nghaergybi? | Os cymeradwyir y cynnig gan Lywodraeth Cymru, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig ac o bosibl byddant yn rhan o'r cais cynllunio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cais cynllunio yn cael ei ddatblygu gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig hefyd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.<br><br>**Gwaith Pellach i Gefnogi Cais Cynllunio**<br>Mae polisïau Llywodraeth Cymru ar Asesiad Trafnidiaeth (TA) a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2016), yn nodi bod Asesiad Trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer pob ysgol newydd (fel y nodir ym Mhennod 8, Adran 8.7.2). Ar ben hynny, nodir hyn hefyd yng nghanllawiau cynllunio lleol Cyngor Sir Ynys Môn fel gofyniad. |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | Dylai Asesiad Trafnidiaeth gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:<br>• Manylion am ddulliau teithio cynaliadwy i'r safle, gan gynnwys dadansoddiad hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Amlinelliad o amodau'r rhwydwaith priffyrdd<br>• Adolygiad o'r safle a'r gweithrediadau presennol, gan gynnwys y ddarpariaeth barcio.<br>• Asesiad o gapasiti parcio<br>• Cynllun rhagarweiniol unrhyw fynedfeydd arfaethedig a chroesfan i gerddwyr.<br>• Asesiad o effeithiau cyffredinol y cynnig ar weithrediad y rhwydwaith ffyrdd lleol.<br>• Dylid hefyd asesu a oes angen unrhyw waith oddi ar y safle ar y priffyrdd, gan gynnwys croesfannau i gerddwyr a darparu troedffyrdd, er mwyn hwyluso mynediad staff/disgyblion/ymwelwyr i safle'r ysgol.<br>Gellir paratoi Cynllun Teithio ochr yn ochr â'r Asesiad Trafnidiaeth i gefnogi'r cynnig. Disgwylir bod angen Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu. Bydd cyswllt â'r awdurdod priffyrdd yn cadarnhau a fydd angen Cynllun Rheoli Meysydd Parcio a Chynlluniau Cyflenwi a Gwasanaethu hefyd.<br>Mae'n debygol y bydd mynediad i gerbydau (ceir a bysiau) i adeilad ysgol newydd posibl o'r B4545. Byddai gyrwyr cerbydau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r A5153 i deithio i ac o safle'r ysgol newydd posibl. Byddai hyn yn helpu sicrhau y byddai unrhyw gynnydd mewn traffig ger safle'r ysgol newydd posibl yn isafol. |
| **3.6** | Pam ydych chi'n cynnig ysgol newydd pan fydd yr **ôl troed carbon** yn llawer mwy nag ailddatblygu'r ysgol bresennol. Bydd y **llygredd** ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad posibl yn cael effaith ar bobl Kingsland.<br><br>Bydd y cynnig yn effeithio ar ardal dawel Kingsland. Nid ydyn ni eisiau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymuned. Nid yw'r cyngor yn ystyried yr effaith niweidiol y bydd y datblygiad hwn yn ei chael ar drigolion ardal Kingsland. | Mae'r adeilad ysgol presennol ymhlith 10 adeilad uchaf y Cyngor o ran allyriadau carbon uchel. (Gweler adran 4.10 o'r Ddogfen Ymgynghori am ragor o wybodaeth). Mae'r Cyngor o'r farn na ellir gwneud unrhyw beth pellach i leihau datgarboneiddio yn yr adeilad yn ei gyflwr presennol. Byddai'r adeilad ysgol newydd yn ysgol carbon sero net unwaith y byddai'n gweithredu. Byddai'r cynnig yn golygu y byddai adeilad newydd posibl Ysgol Uwchradd Caergybi yn achosi llawer llai o allyriadau carbon na'r adeilad presennol. Byddai'r Cyngor hefyd yn ceisio gwella bioamrywiaeth ar y safle posibl ac i wrthbwyso allyriadau carbon.<br><br>Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, rhagwelir y byddai bysiau ysgol sy'n mynd â'r disgyblion i adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd yn mynd i mewn i safle newydd arfaethedig yr ysgol o'r B4545. Byddai hyn yn golygu y byddai'r bysiau hyn yn teithio tua milltir yn llai bob diwrnod ysgol. Ni fyddai'n rhaid i fysiau ysgol deithio i ganol Caergybi. Felly, gellir lleihau allyriadau carbon o fysiau ysgol.<br><br>Mae adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi wedi ei leoli yn ward Parc a'r Mynydd yng Nghaergybi. Ceir isod ystadegau ynghylch troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer y ward hwn a'u cymharu â'r un ystadegau ar gyfer ward Kingsland, lle byddai adeilad newydd arfaethedig Ysgol Uwchradd Caergybi wedi ei leoli: |

| | Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | (see below) |

| Ward | Y 12 mis diwethaf (o fis Tachwedd 2024 at Hydref 2025) | Y 3 blynedd diwethaf |
|---|---|---|
| Kingsland | 33 | 102 |
| Parc a'r Mynydd | 20 | 56 |

Ffynhonnell: Ystadegau troseddau Heddlu Gogledd Cymru

Parc A'r Mynydd | Police.uk
Kingsland | Police.uk

Mae'r ystadegau hyn ar gyfer y 12 mis diwethaf a'r 3 blynedd diwethaf yn dangos bod troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol eisoes yn digwydd yn fwy cyffredin yn ward Kingsland nag yn ward Parc a'r Mynydd.

Fel y nodwyd uchod, os cymeradwyir y cynnig gan Lywodraeth Cymru, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig ac o bosibl byddant yn rhan o'r cais cynllunio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cais cynllunio yn cael ei ddatblygu gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Draffig neu Arolygon Llif Traffig hefyd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 4. Ymateb a ystyrir sy'n annilys

Roedd un ymatebydd yn gwrthwynebu adeiladu'r adeilad newydd hwn ar safle'r ysgol bresennol. Roedden nhw'n teimlo y bydd strwythur o'r fath yn creu llawer iawn o sŵn ac aflonyddwch i blant, yn enwedig y rhai sydd ag anawsterau synhwyraidd sylweddol.

Nid yw hwn yn cael ei ystyried yn wrthwynebiad dilys gan fod y rhanddeiliad o dan yr argraff y bydd adeilad newydd yr ysgol uwchradd yn cael ei adeiladu ar safle'r ysgol uwchradd bresennol. Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar gyfer y cynnig yn nodi y bydd lleoliad yr adeilad ysgol uwchradd newydd posibl ar "dir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn dibynnu os llwyddir i brynu'r tir." Mae'r safle hwn ychydig dros filltir i ffwrdd o adeilad presennol yr ysgol ac felly ni fyddai'n creu unrhyw aflonyddwch na sŵn i unrhyw blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Caergybi.

This page is intentionally left blank